ADNABOD AWDUR

Helen Emanuel Davies

Enw

Helen Emanuel Davies

Dyddiad Geni

Chwefror 6ed 1950

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Yn Aberystwyth, ond mae gen i gysylltiadau cryf â Phorth Tywyn, Sir Gaerfyrddin. Roeddwn i'n treulio pob gwyliau yno pan oeddwn i'n fach, ac yno (mewn mannau dychmygol!) rydw i'n lleoli llawer o straeon.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Roeddwn i'n mwynhau pob iaith – Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Groeg a Lladin – ond roeddwn i'n anobeithiol am dynnu lluniau yn y gwersi Celf!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?

Cerddor proffesiynol ac aelod o gerddorfa fawr fyddai'n teithio o gwmpas dinasoedd mawr y byd yn perfformio.

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Luned Bengoch – roeddwn i'n hoffi pob un o lyfrau Elisabeth Watcyn Jones.

Beth yw eich prif ddiddordebau?

Cerddoriaeth – dw i wrth fy modd yn mynd i gyngherddau a dw i'n canu mewn côr. Edrych ar ôl y cŵn – mae gyda ni bum ci, ac maen nhw'n cystadlu mewn sioeau cŵn.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Darn o gerddoriaeth hyfryd, diwrnod o wanwyn, cŵn bach yn chwarae. Ac mae gen i freuddwyd felys y bydd ein ci ni'n ennill y wobr gyntaf yn Sioe Crufts rhyw ddydd!

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Pobl sy'n greulon, yn enwedig wrth blant ac anifeiliaid.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?

Siff a Saff a straeon eraill.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?

Mae'r syniadau'n dod yn rhwydd, ond mae angen disgyblaeth i eistedd i lawr ac ysgrifennu ac ailysgrifennu nes bod stori wrth fy modd.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

O bobman. Dw i'n gweld cymeriadau diddorol ym mhobman – ar fws, ar drên, yn y dre. Ac mae technoleg fodern yn golygu y gall unrhyw beth fod yn bosibl!

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Mae'n siŵr eich bod chi'n byrlymu â syniadau – peidiwch ag oedi, ewch ati ar unwaith i'w gosod nhw ar bapur. Efallai na fydd y stori'n llifo'n rhwydd ar unwaith, ond dyfalbarhad amdani!

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?

Nac oes, ond mae'n siŵr bod nifer ohonyn nhw'n mynegi fy marnau i, yn enwedig y mamau!

Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?

Drych Ofn.

Pa un yw eich hoff gymeriad?

Yr Afanc yn *Creaduriaid Rhyfeddol*, yn enwedig ar ôl i mi weld llun Graham Howells ohono!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?

Dw i ddim yn gallu nofio, er fy mod wedi ceisio dysgu sawl gwaith!

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?

Dw i ddim yn gwylio llawer o deledu, ond dw i bob amser yn gwylio gêmau rhyngwladol Cymru – rygbi a phêl-droed.

Beth yw eich hoff fwyd?

Pasta, salad, bara lawr.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?

Y cŵn!

Helen Emanuel Davies

Un o Aberystwyth ydw i, a dw i wedi byw yma gydol fy oes heblaw am gyfnod pan oeddwn i'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Llundain. Am nifer o flynyddoedd roeddwn i ar staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ond erbyn hyn golygu llyfrau yw fy ngwaith.

Dw i'n byw gyda fy ngŵr, Raymond, a'r ddau fab, Alun a Rhion, mewn llecyn tawel ar gyrion Aberystwyth. Ond dydy'n tŷ ni ddim yn dawel, oherwydd mae gyda ni bum ci – Gruff, Elena, Mabli, Lisi a Babs.

Mae Gruff yn enwog ym myd sioeau cŵn ac mae un stafell yn llawn o'r cwpanau a'r rubanau mae wedi'u hennill, ond Babs yw fy ffefryn i o'r pump – hi sy'n dod i eistedd ar fy nghôl fin nos. Mae'r cŵn i gyd wedi ymddangos yn fy straeon rywbryd neu'i gilydd.

Dechreuais ysgrifennu ryw ddeng mlynedd yn ôl. Daeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Aberystwyth yn 1992, ac roedd hynny'n sbardun i mi gystadlu yn y cystadlaethau llenyddol. Ar y pryd hefyd roeddwn i newydd ddysgu defnyddio cyfrifiadur, felly i ffwrdd â fi! Dw i bob amser yn cyfansoddi fy straeon ar y cyfrifiadur – os ydw i'n dechrau ysgrifennu â phapur a phensil, ymhen fawr o dro mae gen i ddalen yn llawn croesi allan a sêr a saethau nad ydw i'n gallu eu deall fy hun!

Er i mi gyhoeddi un nofel ac addasu nifer o lyfrau o'r Saesneg, yr hyn sy'n rhoi fwyaf o bleser i mi yw ysgrifennu straeon byrion. Dw i wrth fy modd yn cael syniad newydd, yna'i ddatblygu fel stori o'r dechrau i'r diwedd o fewn rhyw ddeg tudalen. Ac mae cymaint o bethau diddorol i ysgrifennu amdanyn nhw yn y dechnoleg newydd – y We, e-bost, ffonau symudol, gêmau cyfrifiadur. Dw i'n mwynhau ysgrifennu am bethau felly, ac os oes elfen ryfeddol, arallfydol yn y stori, gorau oll! Ac o sôn am y rhyfeddol, cefais i fwynhad arbennig yn sgrifennu *Creaduriaid Rhyfeddol*. Roeddwn i wrth fy modd yn dychmygu'r ceffyl dŵr a'r afanc a'r ddraig – ond dw i ddim yn siŵr a hoffwn i eu gweld nhw yn y cnawd chwaith!

Yn fy marn i, does dim byd tebyg i'r wefr sy'n dod weithiau o deimlo stori'n datblygu wrth fy modd. Beth am i chi roi cynnig arni?

Rhai o lyfrau Helen Emanuel Davies

Siff a Saff a Straeon Eraill
£3.95 086381364X

Drych Ofn
£3.50 1859026060

Fabulous Celtic Beasts
£4.50 1859029434

Creaduriaid Rhyfeddol
£4.50 1859029183

Torri Gair
1856445453 (rhan o becyn Cyfres Dwy-Es CAA)

Cariad Cari
£3.95 1859028004

Cyfrannodd hefyd i gyfres Clic a chyfres Ffeil-o-fflic